CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PANEL CYLLID 6 MAWRTH 2018

(A gohiriwyd o 27 Chwefror oherwydd eira)

Presennol
Cadeirydd Cyng W L Davies

E R Hughes, W T Owen, M Sarnacki, S Sage, R Thomas, I C Thomas, C Williams

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng W R Owen

2. **Datgan Buddiant Personol**

W T Owen a E R Hughes yn yr eitem brys sef Sgrin Gisda

3. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc), er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Sgrin Gisda

5. **Ceisiadau Ariannol :**

Cyn cychwyn trafod ceisiadau tynnodd y clerc sylw bod mwy o geisiadau wedi dod i law ac felly angen cyfarfod arall cyn diwedd y flwyddyn ariannol . Nododd hefyd bod yn syniad rhoi dyddiadau cyfarfodydd y pwyllgor yma ar y wefan wrth y ffurflen gais fel bod y cyhoedd yn gweld erbyn pa bryd mae angen danfon i mewn . Nodwyd hefyd bod £650 ar ôl yn y pot eraill

i) Theatr Bara Caws
Penderfynwyd Cyfrannu £100 o pot eraill (unfrydol)

ii) Canolfan Gerdd William Mathias
Penderfynwyd cyfrannu £200 o pot eraill (unfrydol)

iii) 'Action on Hearing Loss Cymru'
Penderfynwyd cyfrannu dim byd gan bod yn gorff cenedlaethol (unfrydol)

iv) Eisteddfod yr Urdd 2018
Penderfynwyd cyfrannu £250 o'r amcangyfrifon (unfrydol)

v) Papur Dre
Penderfynwyd cyfrannu £500 o'r amcangyfrifon (unfrydol)

vi) Pauline Down
Penderfynwyd cyfrannu £50 allan o pot eraill (o dan Mesur Llywodraeth 2011) ond fydd rhaid gofyn am y gwir gostau wedyn i brofi angen yr arian gan mai unigolyn ydyw (unfrydol)

vii) Eisteddfod Genedlaethol
Penderfynwyd cyfrannu £250 allan or amcangyfrifon (unfrydol)

viii) Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfai
Penderfynwyd Cyfrannu £50 allan o pot eraill (unfrydol)

Pot eraill felly lawr i £250

6. Llythyr gan Kone parthed y lifft

Llythyr yn nodi bod angen mat arbennig o dan rheolau iechyd a diogelwch

Cymaint ag mae'r Cyngor yn cymryd materion Iechyd a diogelwch o ddifri , roeddem yn nodi siom pam na fysa'r eitem yma ddim wedi ei gynnwys yn y ddogfen tendr wrth rhoi y lifft newydd i mewn

Penderfynwyd
Ysgrifennu i ofyn y cwestiwn pam nad oedd wedi nodi yn y ddogfen Tendr ac yna ei ail drafod

7. Sgrin Gisda

Eglurodd y clerc bod aelod o staff Gisda wedi bod yn trafod y sgrin yn ffenestr Gisda , ac yn meddwl y fyddai yn brosiect da i griw o bobl ifanc edrych ar ei redeg . Roedd y clerc wedi holi y person sydd yn eu rhedeg inni ar hyn o bryd oedd yn dymuno sefyll lawr beth bynnag . Ers y trafodaeth roedd yr unigolyn wedi ysgrifennu i'r clerc yn gofyn i dynnu ei wasanaeth ac angen nol y bocs meddalwedd sydd ar y sgrin ac yn holi am gostau sydd yn weddill **.**

Penderfynwyd
Caniatáu iddo dynnu'r meddalwedd a'r swyddfa i edrych ar unrhyw daliad sydd yn weddill iddo gyda hawl i weithredu . Clerc wedyn i siarad

efo Gisda er mwyn symud y prosiect ymlaen efo nhw a rhoi yr hawl iddynt arddangos pethau am eu gweithgareddau nhw yn ogystal a digwyddiadau rydym yn anfon iddynt

Gorffennodd y cyfarfod am 5.50

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....